

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANGYNDEYRN A GYNHALIWDYD AR 6ed o IONAWR 2020 YN SWYDDFA'R CYNGOR, NEUADD PONTIETS AM 7.00 O'R GLOCH

Presennol: Margaret Rees (yn y gadair), Ian Evans, Tyssul Evans, Heddwyn Jones, Geoff Hewitt, Alan Lewis, Geraint Rosser a'r Clerc, Glyndwr Prideaux

Ymddiheuriadau: Caroline Williams, Linda Williams, Aled Williams, Tracey James a Meic Bowen

2336 Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd. Cyfeiriwyd bod Caroline Williams yn gwella ar ôl torri ei choes.

2337 Cofnodion

Derbyniwyd a llofnodwyd cofnodion y Cyfarfod misol diwethaf ar 02/12/2019 fel rhai cywir.

2338 Materion yn codi.

Tud 1. Cofnod Rhif 2318 - Clwb Cymdeithasol Carwe. - Arhoswn am ddyddiad Cyfarfod Safle oddiwrth y Cyngor Sir

Tud 1. Cofnod Rhif 2318 – Swyddfa Bost Carwe – Arhoswn am ymateb oddiwrth Cyngor Cymuned Pontyberem.

Tud 2. Cofnod Rhif 2333 - Parciau Gwynfryn a Phontiets - Trefnwyd Cyfarfod Safle gyda Chwmni Wicksteed ar 16/01/20.

Gohebiaeth

Ceisiadau am grant/cyfraniadau ariannol:-

Cynghorwr Ian Evans yn datgan diddordeb, arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

2339 Bethel Carwe - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £600.

Ian yn ail ymuno a'r cyfarfod.

2340 Cancer Information and Support Services – Llythyr yn diolch am y rhodd.

2341 Pwyllgor Apêl Eisteddfod yr Urdd 2021 - Llythyr yn diolch am y rhodd.

Gohebiaeth gyffredinol :-

2342 Un Llais Cymru – Garddwest Palas Buckingham – Nodwyd yr E-bost.

2343 Cyngor Sir Gar – Ffurflenni Praesept 2020/2021 – Awdurdodwyd y Clerc i'w danfon i'r Cyngor Sir

Ceisiadau Cynllunio

2344 a) Rhif y Cais – W/39926 – Mr & Mrs Green- Llwyn y Filwr, Pontantwn – Estyniad – Dim Gwrthwynebiad

b) Rhif y Cais - W/39937 - Mrs Hamill - Maes y Berllan, Llangyndeyrn - 8 Tŷ - Dim Sylw

Gwaharddiad y Cyhoedd

2345 Penderfynwyd gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod o achos ein bod yn trafod materion cyfrinachol

Adroddiad o Daliadau a Threuliau'r Mis

2346 Derbyniwyd adroddiad ariannol Mis Rhagfyr 2019. Derbyniwyd argymhelliad y Clerc ein bod yn trosglwyddo gweddillion rhan o'r gyllideb sydd heb eu gwario i'r lein gyffredinol.

Adroddiad Ariannol Misol

- 2347** Penderfynwyd bod y canlynol i'w dalu :-
a) Cyflog y Clerc - £446.63 (Mis Rhagfyr)
b) Ffon Tŷ'r Clerc - £25.00 (Mis Rhagfyr)
c) Cydnabyddiaeth y Syrfêwr - £110.00 (Mis Rhagfyr)
ch) HMRC (Treth)- £89.60 (Mis Rhagfyr)
d) Ffon Symudol y Cyngor - £9.98 (Mis Rhagfyr)
dd) BT – Ffon y Swyddfa - £50.64 (Mis Rhagfyr)
e) Paula Clarke – Glanhau Toiledau'r Meinciau (Mis Rhagfyr)- £182.00
f) Marcus Dininno – Torri Gwair - £20.00
ff) Mark Rees - Scalps i Gae Clover - £230.40
- 2348 Archwiliwr Mewnol 2019/2020** - Penderfynwyd gwahodd Mr Phillip Sillick o Gorseinon i gyflawni'r gwaith.
- 2349 Goleuadau Tai Ffoslas** - Penderfynwyd trefni Gyfarfod Safle gyda Chwmni Persimmon i drafod y mater ymhellach
- 2350 Cadair Eisteddfod Llangyndeyrn** - Cafwyd adroddiad gan y Clerc a'r Cynghorydd Heddwyn Jones bod y Cyngor wedi derbyn rhodd o'r Gadair arbennig gan Eglwys Bresbyteraid Bethania, Glan-y-ferri. Penderfynwyd bod y gadair i'w chadw yn Swyddfa'r Cyngor.

Cyfarfod nesaf:- 3ydd o Chwefror 2020 yn Swyddfa'r Cyngor, Neuadd Pontiets am 7.00 o'r gloch.

(Cyfarfod Cynllunio am 6.45 o'r gloch)

Llofnodwyd..... **CADEIRYDD**

Dyddiad.....